Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**12 TACHWEDD 2015**

**Adroddiad gan:** Reolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc: Strwythur Staffio GwE –** Gwneud penderfyniadau

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Adrodd ar y broses bresennol o wneud penderfyniadau ar strwythur staffio GwE, y weithdrefn o fewn awdurdodau lleol a'r dirprwyo arfaethedig o ran penderfyniadau

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae Atodlen 2 y Cytundeb Rhyng-Awdurdod presennol (18/02/13) yn datgan bod y Cyd-bwyllgor i gymeradwyo'r strwythur staffio. O ganlyniad, mae rhaid cyflwyno unrhyw swyddi newydd i'r Cyd-bwyllgor ac i'r Cyd-bwyllgor gytuno arnynt.

2.2 Gan y cynhelir cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor unwaith y tymor yn unig, gall y broses achosi oedi yn y broses benodi.

## 3.0 Materion i'w hystyried

3.1 O fewn awdurdodau lleol, y Pennaeth Adran/Cyfarwyddwr perthnasol sy'n penderfynu ar unrhyw newidiadau i strwythurau staffio, mewn ymgynghoriad â'r Penaethiaid Cyllid ac Adnoddau Dynol.

3.2 Rhaid i'r aelod cabinet perthnasol, pwyllgor perthnasol neu gabinet roi sylw i'r materion a nodir isod:

- Penodi Pennaeth Adran newydd neu Gyfarwyddwr Corfforaethol;
- Pob cais am arian newydd;
- Pob newid i'r strwythur sy'n ymwneud â symud mwy na £200,000 rhwng penawdau cyllid;
- Materion sy'n debyg o gael effaith ar berfformiad y gwasanaeth.

3.3 Cynigir bod y Cyd-bwyllgor yn dirprwyo gwneud penderfyniadau i Reolwr Gyfarwyddwr GwE yn unol â phwerau gwneud penderfyniadau Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Adran yr awdurdod lletyol (mae'r weithdrefn arfaethedig wedi'i chynnwys fel atodiad 1).

3.4 Cynigir bod Rheolwr Gyfarwyddwr GwE yn adrodd am y strwythur yng Nghynllun Busnes GwE ac yn Adroddiad Blynyddol GwE.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor:

4.1.1 Nodi cynnwys yr adroddiad

4.1.2 Cytuno i ddirprwyo'r cyfrifoldeb o wneud newidiadau i strwythur GwE i Reolwr Gyfarwyddwr GwE (yn unol â phrosesau'r ALl lletyol, ac sydd wedi'u cynnwys fel atodiad 1).

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi o'r adroddiad hwn

**6.0 Goblygiadau o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Mae Bwrdd Rheoli GwE wedi cytuno ar y cynnig

**9.0 Atodiadau**

9.1 Gweithdrefn ar gyfer newid y strwythur staffio o fewn yr ALl lletyol

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Mae'r drefn ddirprwyo sydd yn cael ei chynnig yn ymddangos yn briodol gyda darpariaeth addas ar gyfer rheoli'r broses.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae argymhelliad yr adroddiad i ddirprwyo'r cyfrifoldeb o wneud diwygiadau i strwythur GwE i'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn ymddangos yn rhesymol ac mae'n mabwysiadu prosesau a rheolaethau presennol a ddefnyddir o fewn yr awdurdod lleol lletyol. Er eglurder, nodaf fod y 'Canllawiau' ynghlwm i'r adroddiad yn eglur fod rhaid mynd i'r Cydbwyllgor am benderfyniad pe bai'r materion staffio yn ymrwymo cyllideb uwchben adnoddau cyfredol GwE (arian newydd i greu neu uwchraddio swydd).

Atodiad 1:

# FFURFLEN NEWIDIADAU I'R SEFYDLIAD STAFFIO

| | |
|---|---|
| **AWDUR:** | |
| **DYDDIAD Y FFURFLEN:** | |
| **ADRAN:** | |
| **GWASANAETH:** | |
| **SWYDD(I) SYDD I NEWID:** | |
| **DYDDIAD GWEITHREDU:** | |

| | |
|---|---|
| **1.** | Disgrifiad o'r newidiadau a wneir (**Rhaid atodi adroddiad neu siart strwythur a swydd ddisgrifiad ac ymgynghori hefo'r Ymgynghorydd Adnoddau Dynol**) |
| | |
| **2.** | Rheswm dros y newid (sef yr achos busnes).<br><br>(**Rhaid ymgynghori hefo'r Ymgynghorydd Adnoddau Dynol**) |
| | |
| **3.** | Manylion ariannol (**Rhaid ymgynghori hefo'r Rheolwr Cyllid**) |


| | | | |
|---|---|---|---|
| **3 a** | Cost y newidiadau (neu arbedion) ar uchafswm y graddfeydd perthnasol. | | |
| **3 b** | Ffynhonnell gyllido (noder y côd ariannol a'r union symiau sydd i'w symud) | | |
| | | **Côd Ariannol** | **£** |
| | | | |

| | | |
|---|---|---|
| **4.** | Rhaid cael cymeradwyaeth yr isod **cyn** y gellir gweithredu'r newidiadau**.** | |
| | | **Dyddiad cymeradwyo** |
| | **Rheolwr Gyfarwyddwr GwE** | |
| | **Pennaeth Cyllid** | |
| | **Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol (AD)** | |

**TREFN ARFAETHEDIG AR GYFER NEWID SEFYDLIAD STAFFIO**

**PA– Pennaeth Adran**

**CYF – Cyfarwyddwr**




## Canllawiau ar ymdrin â materion staffio

***Pa faterion sydd rhaid mynd i'r Bwrdd Rheoli/Cyd-Bwyllgor***

Rhaid i'r materion hyn fynd i'r Bwrdd Rheoli/Cyd-Bwyllgor;

- Cyd-Bwyllgor: Penodi aelod newydd i'r Uwch Dim Arwain Bwrdd Rheoli: dethol y rhestr fer

I osgoi amheuaeth bydd proses penodi Rheolwr Gyfarwyddwr yn cael ei neilltuo i'r Cyd-Bwyllgor

- Rhaid i'r materion hyn fynd i'r Cyd-Bwyllgor:
- Pob cais am arian newydd i greu neu uwchraddio swydd
- Pob newid i'r strwythur sy'n golygu gwyro mwy na £200,000 rhwng penawdau cyllid

***Pa bryd byddai'n briodol adrodd i'r Cyd-Bwyllgor beth bynnag?***

Os oes amheuaeth fod y newidiadau arfaethedig yn debyg o ddenu sylw cyhoeddus neu amharu ar gysylltiadau gweithiwr/cyflogwr e.e. newidiadau sylweddol i amodau a thelerau gwaith grŵp o weithwyr, sefyllfa all arwain at ddiswyddo gorfodol oherwydd gormodedd, ayb. Dylid ymgynghori hefo Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol (Adnoddau Dynol) yr Awdurdod Lletyol â Chadeirydd y Cyd-Bwyllgor er mwyn penderfynu p'run ai i gyfeirio mater i'r Cyd- Bwyllgor ai peidio.

***Pa bryd dylid ymgynghori hefo Cadeirydd y Cyd-Bwyllgor?***

Rhaid ymgynghori hefo Cadeirydd y Cyd-Bwyllgor l:

- Pan mae amheuaeth a ddylid cyflwyno adroddiad i'r Cyd-Bwyllgor ai peidio (gweler uchod)
- Pan mae adroddiad ar faterion staffio yn mynd i'r Cyd-Bwqyllgor (gweler uchod)

***Ar gyfer pa newidiadau sydd angen cyflwyno ffurflen "Newidiadau i'r Sefydliad Staffio" ar eu cyfer?***

Rhaid llenwi ffurflen ar gyfer y newidiadau hyn;

- Pob newid parhaol (h.y. sy'n parhau dros 12 mis) i'r strwythur staffio
- Pob newid parhaol i raddfa swydd
- Pob newid dros dro i'r strwythur staffio sydd wedi bod mewn grym ers 12 mis

Nid oes rhaid llenwi ffurflen ar gyfer y newidiadau hyn;

- Penodiadau dros dro (llai na 12 mis)
- Secondiadau dros dro
- Caniatáu hicynnau ychwanegol o fewn graddfa
- Caniatáu honorariwm yn unol â'r polisi honorariwm

***Beth sy'n digwydd i geisiadau personol ail-raddio?***

Dylid cyfeirio pob cais o'r fath at  Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol  yr Awdurdod Lletyol a fydd yn ei brosesu yn unol a'r Drefn ar gyfer ymdrin a Ceisiadau Personol am Ail-Raddio (Adran 3.4 o'r Amodau Gwaith).